**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Beddgelert**
**Neuadd y Pentref**
**Beddgelert**
**Gwynedd**
**LL55 4UY**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Beddgelert

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Beddgelert |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal plant sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Nicholas Ashbee |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Erynne Watson |
| Nifer y lleoedd | 10 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau o 9:10 tan 11:40 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15/02/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 27/02/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/02/2020 |

Gwybodaeth ychwanegol

I sicrhau fod y lleoliad yn parhau yn hyfyw yn ariannol ac er mwyn cynnal y ddarpariaeth ddyddiol, mae'r arweinydd yn cael ei chefnogi gan wirfoddolwyr ar hyn o bryd.

Mae mwyafrif y plant yn dod o gartrefi dwyieithog.

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu** **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **dd/p** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu** **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Darparu gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A2 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn manteisio ar hyfforddiant perthnasol i wella'u harferion ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau’n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae’r rhan fwyaf yn dewis ble i chwarae, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i’r llall.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Mae plant yn galw ymarferwyr wrth eu henw ac yn awyddus i ddangos eu cyflawniadau ag ymdrechion iddynt.

Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod chwarae rydd ac yn ystod cyfnodau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio’n effeithiol i greu lamp lafa gydag olew coginio a lliw bwyd. Mae llawer yn deall yn ystyrlon y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy’n gywir ac yn anghywir ac maent yn dweud ‘diolch’ yn gwrtais, pan fo’n briodol.

Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, fel chwilio am sêr ar y daith i’r goedwig. Mae’r mwyafrif yn dyfalbarhau â’u tasgau’n frwdfrydig ac yn ymateb yn ddeallus i unrhyw anogaeth gan ymarferwyr. Mae’r plant yn mwynhau chwarae gyda phridd a dŵr, felly mae’r arweinydd yn meddwl am wahanol weithgareddau gall y plant wneud yn eu defnyddio.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleodd chwarae ysgogol. Mae eu cymhelliant tuag at gwblhau tasgau yn effeithio’n gadarn ar eu dysgu. Mae ganddynt fedrau hunangymorth da iawn ac yn golchi eu dwylo a brwsio’u dannedd gyda chymorth cyfyngedig gan oedolion. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda, er enghraifft trwy arllwys eu diod amser byrbryd, a golchi eu dwylo heb gymorth oedolion.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): dd/p**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae’r ymarferwyr yn gosod disgwyliadau a blaenoriaethau uchel i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau ac maent yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn fwriadus. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo bywydau iachus yn llwyddiannus, fel brwsio dannedd yn ddyddiol ac ailgylchu. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn annog rhieni i ddarparu byrbrydau iach i'r plant tra eu bod yn y lleoliad, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o fyw'n iach yn llwyddiannus. Trwy'r arferion dyddiol, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleodd gwerthfawr i'r plant rhannu yng ngweithgareddau ymarfer corff ac i chwarae tu allan yn y goedwig. Mae'r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn dda iawn ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn gyson i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol ac yn modelu ymddygiadau synhwyrol. Mae ymarferwyr yn garedig ac yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i rannu teganau ac i barchu ei gilydd ac oedolion. Maent yn annog y plant â iddatrys unrhyw wrthdaro trwy drafodaethau gyda'i gilydd, heb or-ymyrraeth oedolyn. Yn ogystal mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn aml, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o barchu ei gilydd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Mae ymarferwyr yn defnyddio asesiadau'n ddeallus i adnabod plant sydd angen cymorth ac i drefnu darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae'r arweinydd yn cydweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod y trawsnewid i'r ysgol mor llyfn â phosib.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r arweinydd a'r gwirfoddolwyr yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant. Mae ganddynt disgwyliadau cadarn ac maent yn darparu cyfleoedd difyr i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Mae'r sesiynau addysgu wythnosol yn y goedwig leol yn cynnig profiadau ysgogol i'r plant. Er enghraifft, maent yn hela sêr yn y brwyn a rhwng y coed, a'u saethu i'r awyr mewn roced, sy'n cael ei danio gan finegr a phowdr pobi. Mae eu haddysgu yn adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn fwriadus ac maent yn holi'r plant yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn ymyrryd yn ddeallus yn ystod gweithgareddau, sy'n cyfoethogi annibyniaeth y plant yn dda trwy ddatrys problemau yn ddiwyd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r plant yn creu tirwedd y lleuad trwy gymysgu tywod, dŵr a phaent du.

Mae'r arweinydd yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol, sy'n targedu diddordebau'r plant yn gadarnhaol, fel creu tylwyth teg allan o begiau, mes a dail, a'u llithro nhw lawr rhisgl coeden. Mae hi'n gwrando ar awgrymiadau'r plant yn dda ac yn addasu'r cynllunio i weithredu ar eu sylwadau gwreiddiol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae hi'n cynllunio heriau beiddgar, fel creu lampau lafa, trwy ddefnyddio dŵr, olew a thabledi eferw.

Mae'r arweinydd yn gwella medrau Cymraeg y plant yn dda trwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion, yn ogystal â chanu hwiangerddi cyfarwydd. Mae arferion rheolaidd yr arweinydd a'r gwirfoddolwyr yn cefnogi'r plant i ddeall cysyniadau mathemategol yn effeithiol, fel defnyddio tafol yn ystyrlon i gymharu pwysau plu â phridd. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn cynnig cyfleoedd addas iddynt ddefnyddio teganau a llechi electronig. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn herio'r plant i wella'u medrau TGCh cynnar yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn cynllunio'n

bwrpasol i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant.  Er enghraifft, maent yn eu hannog i gydbwyso'n ofalus ar foncyffion coed yn y goedwig a chwarae rôl mewn roced, sy'n gwibio i'r lleuad.

Mae pwyslais clir gan yr arweinydd ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant.  Maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio llusernau Diwali a rôl y ddraig yn nathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.  Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus, fel astudio'r rheilffordd gyfagos a hanes y chwarel lechi lleol.  Yn ogystal, gwneir ymweliadau cyson i'r pentref, sy'n gwella ymwybyddiaeth y plant o rolau'r trigolion a nodweddion eu cynefin.  Enghreifftiau da yw taith i'r siop leol i brynu blawd ac ymweliad i fedd yr enwog gi, Gelert.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol.  Mae'r canfyddiadau yn ddibynadwy ac mae'r arweinydd a'r gwirfoddolwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith.  O ganlyniad, maent yn herio'r plant tuag at y camau nesaf yn eu dysgu'n fwriadus.  Mae'r arweinydd yn trafod lles a datblygiad y plant gyda'u rhieni a'u gofalwyr yn ddyddiol, ac yn rhannu profiadau'r plant ganddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystyrlon.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r plant.  Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd mewnol. Maent yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol, sy'n cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl, cyfleoedd i blant ymchwilio ac ymholi a gweithgareddau i effeithio'n gadarn ar eu creadigrwydd. Ni does ardal allanol gan y ddarpariaeth, ond mae'r ymarferwyr yn mynd a'r plant allan yn rheolaidd i'r pentref a'r goedwig.

Mae'r ymarferwyr yn darparu a pharatoi amrywiaeth dda o adnoddau ym mhob ardal dysgu a chwarae.  Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd.  Mae hyn yn galluogi'r plant i'w hestyn a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion.  Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb ymysg ei gilydd.  Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac mae arddangosfeydd niferus o waith crefft a lluniau'r plant.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol.  Mae'r plant yn cael y cyfle i fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.  Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn briodol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel.  Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt.  Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a'r gofynion angenrheidiol sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd ac asesiadau risg dyddiol o'r holl ardaloedd mewnol a theithiau i'r goedwig.  Maent yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod yr holl weithgareddau i sicrhau eu diogelwch.  Er enghraifft, maent yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod plant yn gadael y lleoliad gyda rhiant neu ofalwr cydnabyddedig.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn ysgogol ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae trefn yr ystafell yn caniatáu’r plant i symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau effeithiol o ran eu chwarae. Caiff lles plant ei hyrwyddo trwy ddewis da o deganau ac offer. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn llwyddiannus, gan gynnwys llyfrau, arddangosfeydd a doliau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mewn amser byr, mae’r arweinydd wedi sicrhau cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith y lleoliad, sy’n canolbwyntio’n dda ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Mae ei gweledigaeth glir yn sicrhau profiadau difyr i’r plant, tu mewn i’r adeilad, o gwmpas y pentref, ac yn y goedwig gyfagos. Yn ogystal, mae’r arweinydd a’r person cofrestredig wedi cymryd camau cadarnhaol i anwytho gwirfoddolwyr, i gefnogi gweithgareddau’r lleoliad yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae eu gweledigaeth graff yn sicrhau darpariaeth hyfyw, sy’n cefnogi’r gymuned a’r plant yn effeithiol.

Mae’r arweinydd yn gweithio’n gydwybodol gyda’r person cofrestredig ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a’r plant. Mae eu gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn effeithio’n dda ar arferion y lleoliad. Mae’r arweinydd yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ardaro ar fywyd y lleoliad, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy’n gysylltiedig â’u gwaith, fel y rhieni, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu’r plant. O ganlyniad, mae’r gweithdrefnau yn effeithio’n gadarnhaol ar greu gwelliannau.

Mae’r person cofrestredig a’r pwyllgor rheoli yn cefnogi bywyd a gwaith y lleoliad yn dda. Maent yn sicrhau bod yr arweinydd yn deall ei rôl yn llawn trwy werthusiadau cyson, ac maent yn anwytho’r gwirfoddolwyr yn ddeallus. Yn ogystal, maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol yn fanwl i gyrraedd targedau dilys ar gyfer y lleoliad. Mae hyn yn cefnogi’r arweinydd i adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion sydd angen eu gwella yn llwyddiannus. Mae effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn yn arwain at gynllun datblygu dibynadwy.

Mae’r person cofrestredig a’r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn synhwyrol. Mae eu hagweddau cadarnhaol yn hyrwyddo gwell profiadau i’r plant, trwy gynnal y ddarpariaeth yn y goedwig a thrwy weithio gyda’r awdurdod lleol i wario grantiau’n fwriadus. Maent yn hybu’r arweinydd i ymgymryd mewn hyfforddiant a chefnogaeth priodol er mwyn gwella’i gwybodaeth broffesiynol. Fodd bynnag, nid yw’r gwirfoddolwyr yn ymgymryd mewn hyfforddiant priodol i wella’u harferion ymhellach.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau defnyddiol, fel y rhieni a’r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn cefnogi’r lleoliad trwy godi arian i gefnogi’r plant. Yn ogystal, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda’r ysgol gyfagos, sy’n sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i’r cam nesaf yn eu haddysg yn ddiffwdan.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2020